Rhif: **WG23980**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **22 Ionawr 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **24 Ebrill 2015**

# Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddatblygu'r model prentisiaethau yng Nghymru fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ail-gydbwyso'r economi ac ehangu'r modd y darperir sgiliau lefel uchel.

**Sut i ymateb**

Dylid ebostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **24 Ebrill 2015** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn dylai ymatebwyr ystyried y camau polisi a amlinellir yn y *Datganiad polisi ar sgiliau* (2014). Mae'r datganiad i'w weld ar-lein www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Polisi Ôl-16
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
e-bost: Post16policybranch@cymru.gsi.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015
WG23980

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Rhagair y gweinidog** **2**

**Cefndir yr ymgynghoriad** **4**

**Ein gweledigaeth ar gyfer prentisiaethau** **6**

**Beth yw prentisiaethau a pham eu bod yn cael eu hystyried yn bwysig?** **7**

**Yr heriau i Gymru** **10**

Ein blaenoriaethau cyflenwi 10

Cynllunio a chyflenwi'r system 16

**Y camau nesaf** **20**

## Rhagair y Gweinidog

Mae llawer o gryfderau yn perthyn i system prentisiaethau Cymru. Mae'n system y gallwn ymfalchïo ynddi, gan fod ansawdd dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru gyda'r gorau yn y Deyrnas Unedig. Ceir arwyddion clir fod dysgwyr a chyflogwyr yn gosod gwerth mawr ar ganlyniadau prentisiaethau, yn enwedig gan fod ein cyfraddau llwyddiant ac ansawdd ein harlwy wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Serch hynny, mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein buddsoddiad yn sicrhau'r gwerth gorau posibl o ran caffael sgiliau, a bod y rhaglen yn parhau i fod yn berthnasol i genhedlaeth newydd o bobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn oes dechnolegol. Mae angen cydbwyso hyn gyda galwadau gan gyflogwyr i ddarparu sgiliau sy'n eu helpu i adeiladu eu busnesau, gan gydnabod hefyd y cyfyngiadau ariannol parhaus sy'n wynebu'r llywodraeth.

Ni ddylid tanbrisio effaith prentisiaethau. Mae prentisiaethau'n helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer bywyd gwaith drwy ddarparu'r sgiliau cyflogadwyedd sy'n bwysig i gyflogwyr ochr yn ochr â chymwysterau galwedigaethol a sgiliau penodol i alwedigaethau. Mae Ymddiriedolaeth Sutton yn cydnabod mewn gwledydd fel y Swistir a'r Almaen pa un a ydych chi am weithio ym maes amaethyddiaeth neu fancio, bod prentisiaeth yn gystal cerbyd ar gyfer symudedd cymdeithasol â gradd.

Yn unol â Cymwys am Oes: ein Cynllun Gwella Addysg i Ddysgwyr 3-19 oed, rydym ni'n dymuno datblygu model prentisiaethau sy'n ennyn diddordeb ac sy'n ddeniadol i bobl ifanc ac sy'n datblygu gallu annibynnol i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau. Yn yr un modd, mae i brentisiaethau ran hanfodol yn llwyddiant cyffredinol ein gwaith yn hybu cyflogaeth pobl ifanc fel yr amlinellir yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Rydym yn ymrwymo i annog cydraddoldeb rhwng dysgu galwedigaethol a llwybrau addysgol ôl-16 eraill. Rydym ni am i brentisiaethau fod yn llwybr addas i bobl ifanc at swyddi a phroffesiynau â gwerth uchel sy'n ddewis amgen i brifysgol. Mae angen i'n rhaglen prentisiaethau fod yn uchel ei pharch, fel sy'n wir am ein system prifysgol.

Mae prentisiaethau yn dda i fusnes ac i'r economi. Mae parodrwydd ac ymrwymiad cyflogwyr i gynnig cyfleoedd i brentisiaid yn allweddol i lwyddiant ein rhaglen. Rhaid i'r gallu i ddiwallu anghenion cyflogwyr fod yn rhan greiddiol o gynllun y rhaglen. Fel gwledydd eraill, ein dyhead yw cyflwyno system ymatebol a gwydn, a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu a chyflenwi prentisiaethau sy'n arloesol ac sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon rydym ni'n ymgynghori gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model cryfach at y dyfodol. Mae ein *Datganiad Polisi ar Sgiliau'n* dangos yn glir y bydd angen cynnydd sylweddol mewn sgiliau lefel uwch ar ein heconomi, yn enwedig pobl sydd wedi'u hyfforddi i lefel 4 neu uwch. Mae angen i ni gyflenwi mwy o sgiliau lefel uwch, yn canolbwyntio ar y sectorau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Mae angen cynllunio'r rhaglen mewn modd sy'n cefnogi hyn ac sy'n dangos sut y gall cyflogwyr gyfrannu at ddatblygu prentisiaethau sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hwn yn gyfle i siapio dyfodol ein rhaglen

prentisiaethau i greu model mwy effeithiol sy’n adlewyrchu anghenion cyflogwyr ac sy’n darparu gweithlu â sgiliau at y dyfodol.

Caiff eich barn ei defnyddio i lywio ein cyfeiriad polisi ar brentisiaethau yng Nghymru, a gyhoeddir yn ystod haf 2015.

**Julie James AC**
**Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**

# Cefndir yr ymgynghoriad

Mae economi Cymru'n mynd drwy gyfnod o drawsnewid sylweddol o ran y math o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu neu eu darparu gan fusnesau, a natur y cyfleoedd cyflogaeth a swyddi. Mae ein *Datganiad polisi ar sgiliau*[1], a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn pennu'r camau ar gyfer ail-gydbwyso'r economi a gwella'r modd rydym ni'n diwallu'r anghenion penodol sydd gan fusnesau am weithlu â sgiliau uchel er mwyn bod yn gystadleuol yn rhyngwladol.  Mae angen i ni adeiladu arlwy STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) cryfach a sicrhau bod prentisiaethau'n berthnasol i'r farchnad. Bydd swyddi yfory'n gofyn am lefelau uwch o gymhwysedd nag yn y gorffennol ac mae angen i'n rhaglen prentisiaethau gwrdd â'r her honno a chefnogi twf.

Mae tirwedd prentisiaethau ar draws y DU hefyd yn newid. Mae'r rhaglen diwygio prentisiaethau yn Lloegr yn cyflwyno ei heriau ei hun, sy'n arwain at ansicrwydd o ran datblygu fframwaith prentisiaethau yn y cenhedloedd datganoledig dan fodel sydd, hyd yma, wedi dibynnu ar gryfder systemau cyffredin drwy'r DU. Rydym ni'n awyddus i sicrhau bod ein system prentisiaethau ni'n gydnaws â systemau eraill yn y DU, fel bod prentisiaethau'n gludadwy ar draws y DU.  Yn erbyn y cefndir hwn, mae gennym ni gyfle i ddatblygu ein model gan sicrhau bod cynnwys y prentisiaethau'n gyson â gofynion cyflogwyr. Ymhellach, yn amodol ar gael ei sefydlu drwy Fil Cymwysterau Cymru, gallai fod potensial i Cymwysterau Cymru chwarae rhan strategol a gweithredol yn y gwaith o gynllunio a datblygu prentisiaethau.

Y tebygolrwydd yn y dyfodol yw y caiff yr economi ei nodweddu gan gynnydd yn y nifer o swyddi sy'n gofyn am lefel uwch o gymwysterau a sgiliau. Mae angen i'n model prentisiaethau ni ymateb i'r angen hwnnw. Ar hyn o bryd mae prentisiaethau'n canolbwyntio ar lefel 2 ac mae llawer yn cael eu cyflenwi i bobl 25 oed neu hŷn. Nifer cymharol isel o bobl 16-19 oed sydd wedi cofrestru ar brentisiaethau; ac o gymharu ag economïau eraill yn Ewrop, mae llai o gyflogwyr yn cyflogi prentisiaid a dyw'r rhai sy'n gwneud hynny ddim i'w gweld yn chwarae cymaint o ran yn eu cynllunio. Yn yr un modd mae opsiynau i bobl ifanc ddechrau ar brentisiaethau lefel 3 mewn meysydd STEM yn gyfyngedig o'u cymharu â gwledydd mwy llwyddiannus yn Ewrop. Mewn ymateb i hyn rydym ni'n cynnig codi proffil y rhaglen; gan osod pob prentisiaeth ar lefel 3 neu'n uwch a datblygu ein harlwy prentisiaethau uwch ymhellach. Rydym ni hefyd yn cwestiynu gwerth buddsoddi cyllid cyhoeddus i gynorthwyo gweithwyr presennol, nad ydyn nhw symud i swyddi newydd, i gofrestru ar raglenni prentisiaeth.

Caiff y *Fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd*, sy'n egluro egwyddorion buddsoddi'r llywodraeth a chyflogwyr mewn sgiliau, ei roi ar waith o fis Ebrill 2015. Mae codi lefel buddsoddi mewn sgiliau'n rhan hanfodol o'n hymgyrch i sicrhau system sgiliau i Gymru sy'n fwy cystadleuol yn rhyngwladol. Os yw Cymru'n mynd i gau'r bwlch gyda rhannau eraill o'r DU yn nhermau buddsoddiad gan gyflogwyr mewn sgiliau, mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn buddsoddi yn sgiliau eu gweithlu. Amcan y fframwaith buddsoddi ar y cyd yw darparu sail gref ar gyfer symud pwyslais buddsoddi mewn sgiliau o fod dan arweiniad y llywodraeth i system sydd dan ddylanwad ac arweiniad cyflogwyr. Bydd y fframwaith ar gyfer buddsoddi ar y cyd yn gymwys i'r rhaglen prentisiaethau.

[1] Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi ar Sgiliau (2014)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn cyflogwyr, prentisiaid, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill sydd â rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi prentisiaethau i helpu i ffurf a llywio dyfodol y rhaglen prentisiaethau yng Nghymru.

## Ein gweledigaeth ar gyfer prentisiaethau

Ein gweledigaeth yw datblygu system prentisiaethau ymatebol a gwydn, a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu a chyflenwi prentisiaethau sy'n arloesol ac yn canolbwyntio ar ddiwydiant.  Mae angen i'r system gefnogi twf economaidd, ymateb i anghenion yr economi yn y dyfodol, darparu amrywiaeth o sgiliau sy'n cynorthwyo symudedd cymdeithasol a sicrhau cydraddoldeb cyfle. Rydym ni am gael rhaglen prentisiaethau sy'n ennyn parch gan gyflogwyr, unigolion a rhieni.

## Beth yw prentisiaethau a pham eu bod yn cael eu hystyried yn bwysig?

Dros y blynyddoedd diwethaf mae prentisiaethau wedi datblygu'n rhan allweddol o'n system addysg a sgiliau. Maen nhw wedi'u haddasu ar fwy nag un achlysur gan lywodraethau olynol y DU er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r dydd. Mae *Rhaglen Lywodraethu*[2] Llywodraeth Cymru yn gosod swyddi wrth galon yr hyn a wnawn, ac mae'r rhaglen prentisiaethau'n chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o greu swyddi a chadw swyddi yng Nghymru. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu sgiliau technegol, gwybodaeth a hyfforddiant yn y gweithle i bobl ifanc a'r gweithlu cyfredol, ynghyd â llwybr at gyflogaeth a gyrfa.

Ar hyn o bryd caiff prentisiaethau eu diffinio drwy 'fframweithiau' sy'n pennu'r cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n gorfod cael eu cyflawni i ennill tystysgrif prentisiaeth. Roedd dros 51,000 o brentisiaid yn y rhaglen yn 2013/14[3], gyda thros 150 o fframweithiau wedi'u sefydlu yng Nghymru i gwmpasu ystod eang o sgiliau, crefftau a meysydd galwedigaethol yn ôl sector.


Rhaid i bob fframwaith gynnwys cymwysterau cymhwysedd a thechnegol; o leiaf ddau gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru a hyfforddiant am hawliau a chyfrifoldebau cyflogeion. Mae prentisiaethau'n gweithredu ar lefel 2 (prentisiaethau sylfaen), lefel 3 (prentisiaethau), a lefel 4 ac uwch (prentisiaethau uwch). Mae Ffigur 1 yn amlinellu siâp y ddarpariaeth yn ôl oedran a lefel ar gyfer 2013/14.

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant yn y gwaith, cymorth a chyflog i brentisiaid drwy gydol y brentisiaeth. Mae rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant yn gweithio gyda chyflogwyr i gyflwyno hyfforddiant i brentisiaid drwy gontractau Llywodraeth Cymru.

Mae prentisiaethau'n cynnig manteision sylweddol i gymdeithas a'r economi y tu hwnt i wella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc. Mae prentisiaethau'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu cymwyseddau'n gysylltiedig â swyddi, sgiliau technegol, sgiliau rhifedd a llythrennedd a hunan-barch. Maen nhw hefyd yn bwysig gan eu bod yn cynorthwyo i fynd i'r afael â diweithdra ymysg yr ifanc. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod tua 18% o bobl rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith ar hyn o bryd yng Nghymru. Bydd llawer o'r bobl ifanc hyn yn cael trafferth dod o hyd i swydd am nad ydyn nhw'n meddu ar y sgiliau mae cyflogwyr yn eu dymuno.

[2] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy
[3] Ffigurau dros dro

Dadansoddiad o ganran y prentisiaid yn ôl grŵp oedran a lefel (Ffigur 1)




*Ffynhonnell: Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2013/14 (ffigurau dros dro)*

Mae sgiliau a ddatblygir drwy brentisiaethau'n cyfrannu at weithgaredd economaidd â gwerth ychwanegol uwch. Maen nhw'n dda ar gyfer twf a llesiant cyffredinol. Ceir tystiolaeth fod prentisiaid, dros gyfnod eu hoes, yn derbyn cyflogau uwch a bod yr economi'n elwa'n sylweddol yn sgil cynnydd yn y cynnyrch domestig gros. Mae astudiaeth gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[4] wedi cyfrif bod prentisiaethau'n dod â chyfartaledd o £18 o enillion am bob £1 a gaiff ei gwario arnyn nhw gan y Llywodraeth[5].

Mae hyfforddi prentisiaid yn ffordd effeithiol i ddiwallu gofynion cyfredol ac yn y dyfodol am sgiliau, ac awgrymir fod cyflogi prentisiaid yn fwy effeithiol ar gyfer cwrdd â'r amcan hwn na recriwtio o'r farchnad lafur allanol[6]. Hefyd mae cyfle gan gyflogwyr sy'n hyfforddi prentisiaid i siapio'r sgiliau maen nhw'n eu hennill i gyd-fynd â'r rhai sydd eu

[4] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Adult Apprenticeships (Chwefror 2012)
[5] Mae'r enillion hyn yn seiliedig ar y cyflog ychwanegol y mae Prentisiaid sy'n oedolion yn ei gyflawni'n ddiweddarach (cynnydd o 18 y cant ar gyfartaledd i Brentisiaid Lefel 3 ac 11 y cant i Brentisiaid Lefel 2) wedi'i ffactora dros amcangyfrif oes gwaith ac amcangyfrif o werth y cynhyrchedd ychwanegol i gyflogwyr nad yw'n cael ei dalu mewn cyflogau
[6] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Papur Ymchwil Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Rhis 67, Employer Investment in Apprenticeships and Workplace Learning: the Fifth Net Benefits of Training to Employers Study (Mai 2012)

hangen ar y cwmni ac ymgorffori a gwreiddio gwerthoedd eu sefydliad yn hyfforddiant yr unigolyn, a gall hynny arwain at well cyfraddau cadw staff.

Mae rhaglen prentisiaethau Llywodraeth Cymru gyda'r gorau yn y DU. Mae darparwyr hyfforddiant ar draws y wlad yn cyflawni'r safonau uchaf i ddysgwyr a cheir arwyddion clir fod y bobl sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglenni hyn yn gweld gwerth yr ymdrechion a'r gwelliannau parhaus. Yn 2012/13, y flwyddyn ddiweddaraf sydd â ffigurau swyddogol, roedd cyfradd llwyddiant y fframwaith dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru yn 87% i raglenni prentisiaethau a 85% i raglenni prentisiaethau sylfaenol[7].

[7] Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach (AB), dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

# Yr heriau i Gymru

## Ein blaenoriaethau cyflenwi

### Sgiliau uwch ar gyfer economi sy'n newid

Wrth i'r economi symud o gynhyrchu a gweithgynhyrchu at ddiwydiannau'n seiliedig ar wasanaeth, mae patrymau cyflogaeth pobl ifanc wedi newid. Y tebygolrwydd yw y bydd twf mewn swyddi sy'n galw am lefel uwch o gymwysterau a sgiliau yn nodwedd gynyddol yn yr economi yn y dyfodol[8]. Ar draws y DU disgwylir y bydd 3.6 miliwn o swyddi ychwanegol mewn galwedigaethau sgiliau canolig erbyn 2022[9].

Ar hyn o bryd, mae'r gyfran o brentisiaid ar raglenni sylfaen lefel 2 yn uchel, gan gyfrif am tua 50% o'r holl brentisiaethau a gyflenwir (Ffigur 2). Yn y cyfamser, mae'r rhai sydd ar lefelau uwch (lefel 4 ac uwch), sy'n cael eu hystyried fel dewis amgen i'r brifysgol, yn cyfrif am 10% o'r prentisiaid. Rydym ni'n rhagweld y bydd busnesau'n galw'n gynyddol am sgiliau ar lefelau 3, 4 a 5 a rhaid i'r rhaglen prentisiaethau adlewyrchu'r angen hwn.

Ers peth amser cydnabuwyd fod cyflogwyr yn gynyddol anfodlon cyflogi pobl ifanc sy'n gadael ysgol. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw'r gronfa fawr o raddedigion prifysgol y gellir recriwtio o'u plith. Mae gwella mynediad at addysg uwch wedi cynnig cyfleoedd i lawer o bobl ac wedi cynyddu symudedd cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod eraill mewn perygl o gael eu gadael ar ôl. Mae angen i ni sicrhau bod arlwy cryfach o brentisiaethau lefel 3 ac uwch ar gael yng Nghymru i unigolion sy'n dewis peidio â dilyn y llwybr prifysgol traddodiadol. Mae ymchwil wedi dangos bod prentisiaid uwch yn gallu ennill tua £150,000 yn fwy dros eu hoes, sy'n cyfateb i enillion tebyg ar gyfartaledd i unigolion â gradd[10].

Rydym ni eisoes yn buddsoddi er mwyn datblygu prentisiaethau uwch. Cyflwynwyd prentisiaethau uwch ar lefel 4 ac uwch am y tro cyntaf yn 2011 ac mae cofrestriadau wedi cynyddu'n gyflym ers hynny. Ym mis Hydref 2014, roedd 41 o fframweithiau prentisiaethau uwch wedi'u cyhoeddi, yn bennaf yn y sectorau Gofal, Rheoli, Cyllid a Pheirianneg. Ond mae angen ehangu'r cwmpas galwedigaethol, er enghraifft i gynnwys y diwydiant adeiladu a'r holl sectorau STEM.

[8] Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Working Futures projections for employment change by occupation, 2010–2020

[9] Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Winning the Global Race? Jobs, Skills and the Importance of Vocational Education (2014)

[10] AAT a CEBR, University Education: Is this the best route into employment? (Chwefror 2013).

Dysgwyr yn dilyn prentisiaethau yng Nghymru (Ffigur 2)

| | Prentisiaethau Sylfaen | Prentisiaethau (Lefel 3) | Prentisiaethau Uwch |
|---|---|---|---|
| 2011/12 | 18,895 | 15,785 | 280 |
| 2012/13 | 23,345 | 18,755 | 2,470 |
| 2013/14 | 25,385 | 20,890 | 5,345 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2013/14*

Mae adroddiad gan Brifysgol Greenwich ar ddilyniant prentisiaid i addysg uwch yn awgrymu bod 34.6% o ddysgwyr yn Lloegr sy'n cwblhau prentisiaeth lefel 3 yn dangos diddordeb mewn dilyn cwrs ar lefel gradd[11]. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n symud ymlaen at addysg uwch mewn gwirionedd.

C1. Sut mae mynd ati i gryfhau dilyniant prentisiaethau er mwyn darparu llwybrau clir at brentisiaethau uwch?

C2. Pa fodelau cyflenwi fyddai'n cynorthwyo i ehangu prentisiaethau uwch, yn enwedig mewn galwedigaethau technegol?

## Dechrau cwblhau prentisiaeth ar lefel 3 ac uwch

Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) mae'r galw cynyddol am sgiliau yn y gwledydd sy'n aelodau wedi golygu bod cwblhau addysg uwchradd uwch yn ofyniad sylfaenol ar gyfer mynediad llwyddiannus i'r farchnad lafur a chyfranogi mewn dysgu gydol oes[12]. Mae lefelau isel o sgiliau wedi'u nodi ar draws y DU fel un o'r prif resymau am gynhyrchedd isel o'i gymharu â gwledydd eraill. Mae lefelau is o sgiliau hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth ac yn effeithio'n negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol. Ceir tystiolaeth y gall cymwysterau galwedigaethol lefel 2 arwain at enillion is na phe bai gan ddysgwr bum TGAU da â graddau A*–C[13].

Yn y rhan fwyaf o wledydd eraill yng ngogledd Ewrop, mae prentisiaethau'n gymwysterau lefel 3 sy'n para am rhwng dwy a phum mlynedd. Yng Nghymru mae'r nifer o brentisiaethau lefel 2 yn sylweddol uwch na'r rhai ar lefel 3. Mae llawer o'r prentisiaethau lefel 2 hyn mewn galwedigaethau yn y sector gwasanaeth (gofal iechyd a chymdeithasol; gwasanaethau cwsmeriaid; gweinyddu busnes a lletygarwch), sy'n bwysig i seilwaith cymdeithasol Cymru.

[11] Prifysgol Greenwich, Papur Ymchwil yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Rhif 107 Progression of Apprentices to Higher Education (2013)
[12] OECD, Starting Well or Losing their Way? The Position of Youth in the Labour Market in OECD Countries (2006)
[13] London Economics, Conlon, G a Patrignani, P, Returns to BTEC Vocational Qualifications (2010)

Rydym ni'n ystyried dechrau cwblhau prentisiaethau ar lefel 3 ac uwch ac yn dymuno clywed barn ar hyfywedd dull gweithredu o'r fath. Rydym ni'n dymuno sicrhau gwell dealltwriaeth o'r buddion i'r economi ac effaith bosibl codi proffil y rhaglen ar bobl ifanc, rhieni a chyflogwyr.

Y cynnig yw y dylid dod â phrentisiaethau lefel 2 annibynnol i ben ac yn lle hynny eu bod yn dod yn gydran o brentisiaeth lefel 3.

Pe bai'r dull rydym ni'n ei gynnig yn cael ei fabwysiadu, byddai rhaglen amgen yn cael ei datblygu i'r bobl gyflogedig hynny na fyddai prentisiaeth lefel 3 yn addas nac yn anghenrheidiol ar eu cyfer. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal ymgynghoriad arall ar strwythur a chynnwys unrhyw raglenni hyfforddi pellach sydd wedi'u hanelu at yr hyn sydd, ar hyn o bryd, yn ddarpariaeth lefel 2.

Rydym ni'n awyddus i ymchwilio sut y gallai rhaglen o'r fath weithredu ac a oes tystiolaeth ar gyfer gwneud eithriadau i ganiatáu i brentisiaethau lefel 2 barhau mewn rhai sectorau penodol (yn hytrach na chynnig rhaglen hyfforddiant amgen) os oes manteision sylweddol i gyflogwyr a phrentisiaid.

> C3. Ai'r cynnig i ddechrau cwblhau rhaglenni prentisiaethau ar lefel 3 yw'r ffordd orau i gyflawni'r amcanion canlynol: codi lefelau sgiliau'r gweithlu; darparu llwybrau addysg ymarferol ar wahân i brifysgol; a gwella'r budd economaidd yn sgil buddsoddi arian y llywodraeth mewn prentisiaethau?
>
> C4. Sut byddai modd cyflenwi darpariaeth lefel 2 y tu allan i'r model prentisiaethau?
>
> C5. I helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallai'r cynigion hyn effeithio arnyn nhw'n benodol?

## Uwchsgilio gweithwyr presennol mewn rolau newydd

Mae'r rhaglen prentisiaethau yng Nghymru ar hyn o bryd yn caniatáu i unigolion sydd wedi'u cyflogi am beth amser gan gyflogwr gofrestru ar brentisiaeth. Mae'n bosibl fod llawer o'r gweithwyr hyn eisoes yn ddigon hyfedr yn eu swyddi presennol. Mae hyfforddi gweithwyr newydd a gweithwyr cyfredol yn dod â budd i ddysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach. Fodd bynnag pe bai gweithgaredd hyfforddi yn rhywbeth a fyddai'n digwydd beth bynnag, hyd yn oed heb ein cymhorthdal ni, ni fyddai cofrestru gweithwyr presennol ar raglen prentisiaeth yn ddefnydd da o'n buddsoddiad. Nid yw arfer o'r fath yn cael ei gydnabod fel hyfforddiant prentisiaeth yn y rhaglenni prentisiaethau gorau yn Ewrop.

Dylai prentisiaethau arfogi unigolion â sgiliau a dysgu newydd sy'n angenrheidiol ar gyfer eu swyddi a chyflogaeth a dilyniant yn y dyfodol. Ar y sail hon, dylid targedu prentisiaethau at bobl sy'n symud i swydd newydd neu at unigolion sydd eisoes mewn

swydd lle mae angen gwybodaeth a sgiliau newydd sylweddol, y gellir eu sicrhau drwy brentisiaeth.

Ar hyn o bryd, does dim data sy'n dweud wrthym ni faint o brentisiaethau sy'n cael eu dechrau gan unigolion sy'n newydd yn eu swyddi. Canfu Arolwg Cyflog Prentisiaethau 2012 fod dros 82% o brentisiaid yng Nghymru'n gweithio i'w cyflogwr cyfredol cyn cofrestru ar brentisiaeth. O'r prentisiaid hynny roedd 71% wedi gweithio i'w cyflogwr ers dros flwyddyn cyn cofrestru[14].

Bydd cyfyngu prentisiaethau i swydd newydd, neu rôl swydd newydd i weithwyr sydd eisoes yn cael eu cyflogi, yn helpu i gynyddu'r gwerth ychwanegol y gall buddsoddiad gan y llywodraeth ei ddarparu. Rydym ni am ddeall effaith targedu prentisiaethau wedi'u cyllido gan y llywodraeth at weithwyr mewn rolau swydd newydd.

> C6. Beth fyddai effaith cyfyngu lleoedd ar brentisiaethau wedi'u cyllido gan y llywodraeth i weithwyr mewn rolau swydd newydd?

**Prentisiaethau penodol i alwedigaethau**

Rhaglen ddysgu yw prentisiaeth sy'n galluogi unigolyn i sicrhau'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu gofynion galwedigaeth benodol. Dylai fod yn gymhwyster ystyrlon a pherthnasol sydd o werth i'r cyflogwr. Dylai cyflogwyr allu bod yn sicr bod unigolyn sydd wedi cwblhau ei brentisiaeth wedi cyrraedd lefel o gymhwysedd galwedigaethol sy'n ei alluogi i ymgymryd â rôl swydd, mewn galwedigaeth benodol. Rhaid i brentisiaethau hefyd fod yn drosglwyddadwy, gan alluogi unigolion i sicrhau cyflogaeth gyda chyflogwyr eraill, ac felly rhaid iddyn nhw gynnwys sgiliau trosglwyddadwy.

Yn draddodiadol roedd prentisiaethau'n canolbwyntio ar alwedigaethau oedd yn galw ar unigolion i sicrhau sgiliau a gwybodaeth dechnegol er mwyn bod yn gymwys yn broffesiynol ac yn gymwysedig i ymarfer. Dros y blynyddoedd diwethaf mae rhai prentisiaethau wedi colli'r ffocws hwn gyda diffiniadau galwedigaethol mwy generig yn datblygu. Er enghraifft, mae fframweithiau'n bodoli bellach mewn gweinyddu busnes, gwasanaethau cwsmeriaid ac arwain tîm. Mae diffyg ffocws galwedigaethol yn gallu glastwreiddio gwerth prentisiaeth oherwydd na all warantu y bydd yr holl brentisiaid sy'n cwblhau eu rhaglen yn gallu ymgymryd â rolau swyddi penodol o fewn y maes galwedigaethol generig.

Byddai system sydd â phrentisiaethau sy'n canolbwyntio ar rolau galwedigaethol yn arwain at sicrhau bod unigolion yn cyrraedd lefel o arbenigedd galwedigaethol y byddai eraill yn ei barchu ac a fyddai'n cynnig sicrwydd i gyflogwyr bod unigolion yn gymwys yn alwedigaethol wrth gwblhau eu prentisiaethau. Byddai hyn hefyd yn cynyddu parch a gwerth prentisiaethau fel llwybr addysg amgen.

Rydym ni am ddeall effaith targedu cyllid y llywodraeth at brentisiaethau sy'n benodol i alwedigaethau.

[14] Papur Ymchwil Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Rhif 121, Apprenticeship Pay Survey 2012: Research Findings (Hydref 2013)

C7. Beth fyddai'r effaith ar gyflogwyr a phrentisiaid pe bai arlwy'r rhaglen prentisiaethau yn cael ei symud at brentisiaethau penodol i alwedigaethau?

## Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae pwysigrwydd Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol yn cael ei gydnabod yn eang. Mae cyflawni'r sgiliau hyn yn helpu unigolion i adeiladu hunanhyder, ac mae gweithwyr sy'n meddu ar y sgiliau hyn yn fwy parod ac yn fwy abl i ymgymryd â hyfforddiant pellach. Mae gweithwyr sy'n sicrhau'r sgiliau hyn yn cynyddu eu potensial ar gyfer llwyddiant a dilyniant.

Serch hynny, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod rhai prentisiaid yn gallu teimlo rhwystredigaeth a cholli cymhelliant os oes gofyn iddyn nhw ymgymryd â chymwysterau mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, yn enwedig os oes ganddyn nhw gymwysterau mewn pynciau tebyg ar lefelau cyffelyb yn barod.

Hoffem gael eich barn am y potensial ar gyfer cymwsterau dirprwyol ar gyfer gofynion llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol o fewn fframweithiau prentisiaethau. Cymwsterau dirprwyol yw cymwysterau sy'n asesu'r un wybodaeth a sgiliau ag agweddau o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. O ganlyniad i'r gorgyffwrdd hwn, gallai dysgwyr o bosibl hawlio eithriad o asesiad cyfan neu ran o asesiad cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru.

C8. Pa broblemau ydych chi wedi'u hwynebu mewn perthynas â chyflenwi cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru pan fydd gan brentisiaid gymwysterau ar lefelau cyffelyb neu uwch mewn pynciau tebyg yn barod?

C9. Ydych chi'n meddwl y dylid derbyn cymwysterau dirprwyol ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn y fframweithiau prentisiaeth?

C10. Pa gymwysterau ydych chi'n meddwl y byddai'n rhesymol i'w derbyn fel rhai dirprwyol ar gyfer cymwysterau penodol Sgiliau Hanfodol Cymru?

## Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg

Mae *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*[15] Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2010 yn gosod gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer system addysg a hyfforddiant sy'n galluogi nifer cynyddol o ddisgyblion a dysgwyr i ymgymryd â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn y gymuned ac yn y gweithle. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targed penodol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd adroddiad ar y galw cyfredol ac yn y dyfodol gan gyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg mewn wyth sector allweddol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r angen sydd gan gyflogwyr am

[15] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)

sgiliau iaith Gymraeg a bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio polisi'r dyfodol yn unol â hynny. Mae'r canlyniad yn arbennig o bwysig i'r sector ôl-16; bydd angen i ddarparwyr seiliedig ar waith sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r iaith mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

Casgliad yr adroddiad oedd bod diffyg sgiliau iaith Gymraeg yn y sectorau Gofal a Bwyd-Amaeth. Rydym ni'n edrych ar gynyddu cyfleoedd i brentisiaid ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â lefelau'r galw.

> C11. Sut gall Llywodraeth Cymru annog cynnydd yn y galw am ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg?

## Cynllunio a chyflenwi'r system

### Tirwedd newidiol y DU

Mae cynnwys cyflogwyr yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi cwricwlwm prentisiaethau'n rhan hanfodol o unrhyw system prentisiaethau. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU yn diwygio ei rhaglen prentisiaethau ac yn cyflwyno safonau prentisiaethau newydd[16]. Bydd safonau prentisiaethau yn disodli'r fframweithiau gan ddiffinio elfennau gwahanol y prentisiaethau penodol i alwedigaethau. Mae'r safonau'n cael eu datblygu gan grwpiau o gyflogwyr sy'n gweithredu yn yr un sector. Yr enw ar y grwpiau yw 'trailblazers'. Ar hyn o bryd mae dros 70 o'r grwpiau hyn yn datblygu safonau prentisiaethau, gan gwmpasu amrywiaeth o alwedigaethau sy'n berthnasol i gyflogwyr yn Lloegr.

Yr egwyddor allweddol sy'n sail i'r diwygiadau yn Lloegr yw bod y gwaith o ddatblygu ac adolygu prentisiaethau'n dechrau gyda chyflogwyr a nhw sy'n cyflawni'r gwaith. Y bwriad yw y bydd cyflogwyr yn parhau i ddatblygu a chynnal y safonau prentisiaeth.

Dan y trefniadau cyfredol, caiff datblygiad fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru (a than yn ddiweddar, yn Lloegr) ei gymeradwyo drwy Fwrdd Safonau a Chomisiynu Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES), sy'n ffurfio contractau gyda Chynghorau/Cyrff Sgiliau Sector. Mae'r Cynghorau/Cyrff Sgiliau'n cyflwyno cynigion i UKCES ar gyfer datblygu a chynnal fframweithiau lle ceir tystiolaeth o angen mewn sector penodol. Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o'r Bwrdd ynghyd â chenhedloedd datganoledig eraill.

Fodd bynnag mae diwygiadau i brentisiaethau yn Lloegr yn ailffurfio ffocws sefydliadau fel y Cynghorau/Cyrff Sgiliau Sector, ac yn arwain at fwy o ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a fu, hyd yma, yn system gyffredin ledled y DU. Yng Nghymru, bydd angen i ni addasu ein system i ystyried y diwygiadau hyn.

Cyflogwyr sy'n datblygu safonau prentisiaethau newydd yn Lloegr, gan amlinellu'r gofynion ar gyfer gwahanol alwedigaethau o fewn sectorau. Bydd y cyflogwyr yn dynodi'r gofynion hynny y gallant ddangos tystiolaeth eu bod yn hanfodol ar gyfer galwedigaeth benodol. Gallai'r gofynion gynnwys cofrestriad proffesiynol neu ran o'r gofyniad ar gyfer cael trwydded i ymarfer. Cyfrifoldeb yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yw cymeradwyo'r safonau newydd yn y pen draw, ar ôl eu cyflwyno i banel ymgynghorol.

Yn ogystal â'r newidiadau a amlinellwyd eisoes, mae'n fwriad gosod un asesiad wedi'i raddio ar ddiwedd pob prentisiaeth yn Lloegr. Disgwylir y bydd hyn yn ychwanegu gwerth i brentisiaethau ac yn cryfhau'r dystiolaeth o gymhwysedd galwedigaethol wrth gwblhau prentisiaeth. Yn y cyd-destun hwn, bydd yr asesiad terfynol yn profi gallu'r prentis i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau i'w defnyddio i ddatrys problemau yn y gweithle.

---

[16] The Future of Apprenticeships in England: Implementation Plan, Llywodraeth y DU (Hydref 2013) https://www.gov.uk/government/consultations/future–of–apprenticeships–in–england–richard–review–next–steps

Bydd dwy flwyddyn academaidd 2015/16 a 2016/17 yn gyfnod pontio ar gyfer y diwygiadau hyn. Y nod yw y bydd y prentisiaethau newydd i gyd yn dechrau dilyn y safonau newydd o 2017/18. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Llywodraeth y DU wedi peidio â darparu cyllid i UKCES a'r Cynghorau/Cyrff Sgiliau Sector ar gyfer datblygu a chynnal fframweithiau yn Lloegr.

Mae'r *Datganiad polisi ar sgiliau* yn cyfeirio at fwriad Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sail ar gyfer Fframweithiau Cymwysterau a Phrentisiaethau Galwedigaethol i Oedolion. Datganiadau o gymhwysedd galwedigaethol yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a ddatblygwyd gan gyflogwyr ar gyfer cyflogwyr; ambell waith cyfeirir atyn nhw fel sail y systemau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ar draws y DU. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig a llawer o gyflogwyr yn gosod gwerth mawr ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, gan rannu'r farn fod y safonau hyn yn cynnig cludadwyedd ar draws y DU o fewn tirwedd addysg a sgiliau sydd fel arall wedi'i datganoli. Mae Grŵp Llywodraethu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU wedi'i sefydlu'n ddiweddar i sicrhau bod y Safonau'n parhau'n addas i'r diben ac yn diwallu anghenion y pedair cenedl.

Oherwydd y gwahaniaeth parhaus rhwng gwahanol systemau addysg a sgiliau'r DU, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i Fframwaith Cymwysterau a Chredydau'r tair cenedl, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu parhau i sicrhau ansawdd y cymwysterau a gaiff eu sefyll gan brentisiaid yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cael eu hystyried yn berthnasol ac yn werthfawr i ddysgwyr a chyflogwyr o fewn y sectorau priodol. Rydym ni yn ystyried a fydd angen diwygio canllawiau Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW) er mwyn sicrhau mai dim ond cymwysterau galwedigaethol sy'n eistedd o fewn Colofn Reoledig Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru[17] sy'n gymwys i'w cynnwys o fewn fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru.

Hoffem gasglu barn rhanddeiliaid am y ffordd y bydd y diwygiadau'n effeithio arnyn nhw a sut y gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

> C12. Beth sydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried o ran cysondeb a chludadwyedd prentisiaethau rhwng systemau Cymru a Lloegr?
>
> C13. Oes unrhyw agweddau ar system ddiwygiedig Lloegr a fyddai'n gwella'r system prentisiaethau yng Nghymru?

**Tirwedd Cymru sy'n datblygu**

Mae'r systemau prentisiaethau gorau wedi'u cynllunio i adlewyrchu anghenion diwydiant drwy weithio mewn partneriaeth. Mae cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio, cyflenwi ac asesu prentisiaethau'n hanfodol ar gyfer sicrhau rhaglen ymatebol gydag arlwy gweladwy a hygyrch. Rydym ni'n disgwyl y bydd twf yn y dyfodol yn sgil galw cynyddol a buddsoddiad mewn blaenoriaethau sy'n deillio o'r cyflogwyr.

---

[17] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/creditqualificationsframework/?skip=1&lang=cy

Mae angen i gyflogwyr allu mynegi eu hanghenion sgiliau yn glir, a chael cyfle i fwydo eu hanghenion i gynlluniau a datblygiadau'r rhaglenni sgiliau. Yn yr Iseldiroedd, er enghraifft, mae rhan fawr gan gyflogwyr yn y gwaith o gynllunio a sicrhau ansawdd cyrsiau hyfforddi; cynnig profiad gwaith, yn ogystal â chyflenwi eu prentisiaethau a'u hyfforddiant eu hunain[18]. Yng Ngogledd Iwerddon, mae fforwm ymgynghorol strategol a phartneriaethau sector wedi'u sefydlu â'r nod o sicrhau bod y ddarpariaeth a chynnwys y prentisiaethau'n diwallu anghenion y cyflogwyr[19].

Mae'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau*[20] yn egluro sut bydd Llywodraeth Cymru'n helpu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gynorthwyo gyda chyflenwi sgiliau'n rhanbarthol. Rôl allweddol i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fydd gwneud trefniadau ar gyfer cynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau rhanbarthol yn y dyfodol o ran cyllido sgiliau yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau. Ein huchelgais yw sbarduno galw am gymorth cyflogaeth a sgiliau drwy ddarparu hyblygrwydd i ddatblygu ymatebion sy'n seiliedig ar angen lleol a rhanbarthol. Bydd hyn yn ein helpu i gysoni darpariaeth dysgu ranbarthol gyda buddsoddiadau strategol ehangach a chyfleoedd am dwf, gan gynnwys y blaenoriaethau a bennwyd gan yr Ardaloedd Menter a'r Dinas-ranbarthau.

Ar hyn o bryd, mae'r cyllid a gaiff ei ddyrannu ar gyfer cofrestriadau prentisiaethau'n seiliedig ar ddata'r sector diwydiant. Mae cyfle i Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol gymryd lle'r fethodoleg gyfredol a dylanwadu ar ba brentisiaethau mae Llywodraeth Cymru'n eu cefnogi ar sail cost niwtral. A derbyn nad oes disgwyl i'r tri Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol fod yn barod tan 2015, y cyfle cyntaf i weithredu unrhyw newid fydd 2016/17.

Mae potensial i Cymwysterau Cymru chwarae rôl strategol a rôl weithredol mewn perthynas â phrentisiaethau. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i sefydlu Cymwysterau Cymru[21] fel rheoleiddiwr annibynnol a fyddai'n sicrhau ansawdd cymwysterau Cymru yn dangos cefnogaeth gref i'r syniad y dylai'r corff newydd gymryd y cyfrifoldeb am brentisiaethau a gweithredu fel 'ceidwad y porth' ar gyfer fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru. Ymhellach, yn ei argymhelliad yn dilyn craffu cyn y broses ddeddfu ar Fil Cymwysterau Cymru, dywedodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod yn 'cytuno y gallai Cymwysterau Cymru chwarae mwy o ran ym maes cymwysterau prentisiaethau'.

Os caiff ei sefydlu, gallai rôl Cymwysterau Cymru gynnwys darparu cyngor annibynnol i'r llywodraeth ar ddatblygu prentisiaethau newydd ac adolygu rhai cyfredol. Dan drefniant o'r fath, mae potensial pellach i Cymwysterau Cymru ddatblygu i fod yr Awdurdod Dyroddi[22] dynodedig ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru. Y Cynghorau Sgiliau Sector sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd, gan sicrhau bod

---

[18] Paul Casey , Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, The Vocational Education and Training System in Netherlands (2013)
[19] Adran Addysg a Dysgu, Gogledd Iwerddon, Securing our success: The Northern Ireland Strategy on Apprenticeships (Mehefin 2014)
[20] Llywodraeth Cymru, Cynllun gweithredu sgiliau (2014) http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?skip=1&lang=cy
[21] Llywodraeth Cymru, Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru (2013) http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?skip=1&lang=cy
[22] Yr Awdurdod Dyroddi yw'r sefydliad(au) a bennwyd gan Llywodraeth Cymru i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru.

fframweithiau'n bodloni'r gofynion a osodir yng nghanllawiau Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru.

Mae'r rôl hon yn cydweddu â swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru oherwydd gellir cymhwyso llawer o'r prosesau a'r gofynion yn y swyddogaethau arfaethedig sy'n ymwneud â chymeradwyo cymwysterau i rôl yr awdurdod dyroddi. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai dynnu sylw oddi ar swyddogaethau craidd Cymwysterau Cymru, yn enwedig yn ystod cyfnod cynnar y gwaith o sefydlu'r corff arfaethedig.

Byddai swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru'n caniatáu iddo gael yr arbenigedd i gynnig cymorth arbenigol i Lywodraeth Cymru ar amrywiaeth o bynciau. Gallai hyn gynnwys cyngor mewn perthynas â pholisi ar brentisiaethau mewn mannau lle byddai'n debyg i'w feysydd arbenigedd arfaethedig megis cymwysterau ac asesu. Rydym ni'n cynnig y byddai'r swyddogaeth ymgynghorol hon yn un anffurfiol.

> C14. Pa fudd fyddai'n deillio o sefydlu paneli cyflogwyr i ymgymryd â rôl cynghori ar gynllunio ac ar gynnwys prentisiaethau a llywio'r galw'n flynyddol ar lefel sector?
>
> C15. Sut gallai Cymwysterau Cymru gynorthwyo nod Llywodraeth Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion y cyflogwyr a sicrhau bod cynnwys y prentisiaethau'n berthnasol i'r farchnad lafur i raddau helaeth?

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddyn nhw, cynhwyswch y rhain gyda'ch ymateb.

## Y camau nesaf

Bydd ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu prentisiaethau yng Nghymru a gyhoeddir yn ystod haf 2015.